Byddwch yn warchodwr plant cofrestredig yng Nghymru

> “Byddwn i’n bendant yn argymell bod yn warchodwr plant cofrestredig. Dyma’r swydd orau erioed!”
>
> **Karen, gwarchodwr plant cofrestredig, Abertawe**

Pam dewis bod yn warchodwr plant cofrestredig?

Os ydych chi'n teimlo'n gryf am roi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd, ac os hoffech yrfa sy'n cyd-fynd â'ch ymrwymiadau teuluol, efallai mai bod yn warchodwr plant cofrestredig fydd y dewis delfrydol.

Os byddwch chi'n warchodwr plant cofrestredig, gallwch gael gyrfa werth chweil drwy redeg eich busnes o'ch cartref eich hun, a gweithio gyda rhai o'r bobl fwyaf brwdfrydig ac ysbrydoledig sydd i'w cael – plant.

A chithau'n warchodwr plant cofrestredig, byddwch yn cynnig amgylchedd dysgu diogel a symbylol. Bydd pob dydd yn wahanol ond, ar ddiwrnod arferol, gallech fod:

- yn trefnu gweithgareddau dysgu dychmygus a symbylol
- yn mynd allan yn y gymuned leol i barciau, llyfrgelloedd, grwpiau chwarae neu i gyfarfod ag eraill sy'n gwarchod plant
- yn darparu prydau a byrbrydau
- yn mynd â phlant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, sesiynau cyn-ysgol neu glybiau.

Byddwch chi'n gallu gwylio'r plant yn tyfu, a chwarae rhan allweddol yn eu datblygiad cynnar. A chithau'n warchodwr plant cofrestredig, fe fyddwch:

- yn cefnogi plant i ddysgu drwy ddilyn egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru
- yn gweithio yn eich cartref eich hun, gan ddewis eich oriau gwaith a'r gwasanaethau a ddarparwch
- yn gofalu am eich plant eich hun ar yr un pryd os oes gennych deulu
- yn dod i adnabod eich ardal leol
- yn ymuno â chymuned o 2,400 o warchodwyr plant ledled Cymru gan ddarparu gofal plant hyblyg o ansawdd.

Gwneud gwahaniaeth

A chithau'n warchodwr plant, byddwch chi'n gwneud gwahaniaeth mewn llawer ffordd – byddwch chi'n datblygu eich sgiliau eich hun a'ch busnes eich hun, yn cefnogi plant a'u teuluoedd ac yn gweithio'n rhan o'ch cymuned leol.

Mae gwarchod plant yn yrfa ddynamig ac esblygol, a bydd cyfleoedd i wneud cyrsiau a hyfforddiant a fydd yn helpu i ddatblygu eich gwybodaeth, eich hyder a'ch sgiliau.

Er enghraifft gallech chi gwblhau cwrs ar drosglwyddo'r iaith Gymraeg i'r plant yn eich gofal gan wella eu datbglygiad ac ehangu eich sgiliau eich hun ymhellach.

Gallwch hefyd arbenigo mewn maes penodol, fel gofalu am blant anabl neu blant sy'n agored i niwed, gan gyfrannu go iawn at eu bywydau. Bydd eich gofal hefyd yn rhoi cymorth gwerthfawr i'w teuluoedd a allai gael trafferth i ddod o hyd i ofal plant addas.

Un o'r pethau gorau am ofalu am blant yw gwylio eu cyffro wrth iddynt ddysgu rhywbeth newydd neu gyflawni rhywbeth am y tro cyntaf erioed. A chithau'n warchodwr plant, byddwch chi'n gwneud cyfraniad pwysig at ddysgu a datblygiad plentyn a hefyd yn helpu teuluoedd lleol, drwy ddarparu'r gofal plant sy'n gallu helpu rhieni i weithio neu ddechrau hyfforddiant neu addysg.

"Rwy'n gwneud hyfforddiant pryd bynnag y galla i. Rwy'n cael syniadau a gwybodaeth newydd wrth gyfarfod â gwarchodwyr plant eraill."
Anne, gwarchodwr plant cofrestredig, Gwynedd

Cofrestru

Mae'r gyfraith yn mynnu bod unrhyw un sy'n darparu gofal plant i blant o dan 8, am fwy na dwy awr y dydd ac am dâl, yn cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Os na fyddwch yn cofrestru, byddwch chi'n torri'r gyfraith. Bydd teuluoedd yn gallu gweld a ydych wedi cofrestru drwy gysylltu â'u Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) lleol.

Cyn y gallwch chi gofrestru, bydd angen ichi gwblhau hyfforddiant cyflwyniadol, llenwi cais AGGCC, cwblhau polisïau a gweithdrefnau a dangos eich bod chi'n gallu bodloni safonau gosodedig. Bydd pob ymgeisydd yn cael gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB), ac yn cael archwiliad cartref i sicrhau bod y lle'n ddiogel ac yn addas ar gyfer gofal plant. Bydd angen hefyd ichi gael Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.

Bydd AGGCC yn nodi nifer mwyaf y plant y gallwch ofalu amdanynt ar unrhyw adeg, sef hyd at chwech o blant o dan 8 ac, fel arfer, tri o blant ar y mwyaf sydd o dan 5. Bydd y niferoedd hyn yn cynnwys eich plant eich hun os oes gennych chi blant.

Byddwch hefyd yn cael arolygiadau rheolaidd gan AGGCC i sicrhau eich bod yn parhau i fodloni'r holl safonau a'r rheoliadau angenrheidiol. Mae hyn yn rhan bwysig iawn o arddangos i rieni fod gwarchodwyr plant cofrestredig yn cynnig gofal diogel a phroffesiynol i'w plant.

Ble nesaf?

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA) yn gymdeithas aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio i gefnogi gwarchodwyr plant drwy roi cyfleoedd hyfforddiant, hyrwyddo'r proffesiwn, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau, a chynnig yswiriant arbenigol, gwaith papur busnes a chyngor cyfreithiol. Os ydych chi'n credu mai gyrfa gwarchodwr plant cofrestredig allai fod yr yrfa i chi, cysylltwch.

I gael gwybod rhagor am NCMA Cymru, neu i gael cymorth i gofrestru'n warchodwr plant yng Nghymru:
Ffôn: 0845 880 1299
E-bost: ncmacymru@ncma.org.uk

I ymuno ag NCMA:
Gwe: www.ncma.org.uk/join
Ffôn: 0845 880 0044

Ffynonellau eraill o wybodaeth

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw'r corff cenedlaethol sy'n gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwarchodwyr plant yng Nghymru.
Ffôn: 01443 848450
Gwe: www.aggcc.org.uk

Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS)
Bydd Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) yn cadw gwybodaeth am warchodwyr plant cofrestredig, a nanis, mewn ardal awdurdod lleol.
Ffôn: 0300 123 7777
Gwe: www.cymru.gov.uk/teulu

NCMA Cymru
Ocean Buildings, Cilgant Bute, Caerdydd, CF10 5AY.

Prif swyddfa NCMA
Royal Court, 81 Tweedy Road, Bromley, Kent. BR11TG.

ncma Cymru

RC02 06/11